# ‘Cythryblus a thrychinebus’: Gwrthryfel y Pasg, 1916, a’r Wasg Gymreig

Gethin Matthews

*Prifysgol Abertawe*

**Crynodeb:** Fe esgorodd Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn yn 1916 ar gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at annibyniaeth rhan sylweddol o’r ynys, ond ar y pryd nid oedd gwerthfawrogiad o’i arwyddocâd yng Nghymru. I fwyafrif helaeth y Cymry, roedd hon yn weithred fradwrol, gan ei bod yn digwydd ar adeg pan oedd Iwerddon (fel gweddill y Deyrnas Gyfunol) yng nghanol rhyfel gwaedlyd na welwyd ei fath o’r blaen. Mae’r erthygl hon yn olrhain sut yr edrychwyd ar ddigwyddiadau yn Iwerddon yng nghyd-destun y rhyfel yn erbyn yr Almaen, a’r modd yr oedd y cysyniad ei bod yn fuddiol i Iwerddon (fel Cymru) aros yng nghôl yr Ymerodraeth Brydeinig wedi ei wreiddio mor ddwfn fel nad oedd modd ei herio.

**Allweddeiriau:** Gwrthryfel y Pasg, Rhyfel Mawr, Ymerodraeth, Militariaeth, Cymru ac Iwerddon, Papurau Newydd, Owen M. Edwards, Sinn Féin.

## ‘Troublesome and tragic’: The Easter Rising, 1916, and the Welsh Press

**Summary:** The Easter Rising in Dublin in 1916 began a chain of events that led to the independence of most of Ireland, but at the time its momentous significance was not appreciated in Wales. For the vast majority of Welsh people, it was pure treachery as it happened at a time when Ireland (like the rest of the United Kingdom) was engaged in a war unprecedented in its savagery and scale. This article traces how events in Ireland were seen in Wales through the lens of the war against Germany, and how the notion that Ireland (like Wales) was better off within the protective embrace of the British Empire was so widespread that it could not be challenged.

**Keywords:** Easter Rising, First World War, Empire, Militarism, Wales and Ireland, Newspapers, Owen M. Edwards, Sinn Féin.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Testun yr erthygl hon yw gwrthryfel a fu'n fethiant llwyr ar y pryd, ond un a brofodd yn llwyddiannus yn ei amcanion o fewn ychydig flynyddoedd. Cybolfa anhrefnus o ran ei gynllunio a'i weithredu oedd Gwrthryfel y Pasg 1916 yn Iwerddon, ond fe esgorodd ar gyfres o ddatblygiadau a arweiniodd at annibyniaeth rhan helaeth o'r ynys oddi wrth y Deyrnas Unedig. Felly, maes o law, fe ddaeth Gwyddelod yn y Weriniaeth i edrych ar y gwrthryfelwyr fel arwyr a merthyron. Yn ystod y ganrif a mwy ers Gwrthryfel y Pasg mae llawer o Gymry, yn enwedig y rhai o dueddfryd cenedlaetholgar, wedi edrych dros Fôr Iwerddon â chryn genfigen.[1] Oherwydd llwyddiant y Weriniaeth dros y degawdau diwethaf i'w sefydlu ei hunan fel gwlad annibynnol falch o fewn cyfundrefn Ewrop, ceir nifer o ddatganiadau yng Nghymru heddiw sydd yn derbyn y dehongliad bod y gwrthryfelwyr â chyfiawnder o'u plaid yn 1916: 'pan gododd gweriniaethwyr yn erbyn trefn a gormes Prydain', yn ôl rhaglen boblogaidd ar Radio Cymru yn 2013.[2]

Fodd bynnag, yn 1916 ni wyddai neb y byddai 26 o siroedd ynys Iwerddon yn ennill eu hannibyniaeth o fewn ychydig flynyddoedd. Safbwynt y Cymry ar y digwyddiadau ar y pryd sydd dan y chwyddwydr yn yr erthygl hon. Dadansoddir yr adroddiadau yn y wasg a safbwyntiau rhai gohebwyr dylanwadol i geisio amgyffred yr agweddau cyffredin tuag at y 'cythrwfl'.

Dros y degawd diwethaf cafwyd nifer o gyhoeddiadau a astudia'n fanwl y disgwrs yng Nghymru yn ystod blynyddoedd tyngedfennol y Rhyfel Mawr.[3] Cyfraniad arbennig yr erthygl hon yw ystyried yn ofalus y modd yr oedd dwy agwedd yn tra-arglwyddiaethu ar y trafodaethau cyhoeddus a gafwyd yng Nghymru yn 1916, sef effaith y rhyfel yn erbyn yr Almaen, a oedd yn troi'n rhyfel hollgwmpasog wedi blwyddyn a hanner o ymladd; a'r teimladau o ufudd-dod a theyrngarwch i'r Ymerodraeth. Astudir yr ymatebion mewn ystod eang o bapurau newydd yn y ddwy iaith er mwyn ceisio adnabod y prif batrymau.[4]

Bydd yr ymchwil yn cwmpasu nifer eang o gyhoeddiadau Cymreig yn y ddwy iaith, y rhan fwyaf ohonynt o ffynonellau ar-lein, i ddarganfod eitemau sydd yn cyfeirio at y gwrthryfel a'i gyd-destun.[5] Daethpwyd o hyd i'r adroddiadau trwy chwilio am allweddeiriau

[1] Gweler clawr *Barn*, 723, Ebrill 2023, a'r is-deitl 'Iwerddon yn destun eiddigedd' i hyrwyddo erthygl Jones, Richard Wyn, 'Iwerddon – gwlad lle mae mwy a gwell yn bosib', 11–13.

[2] *Cofio*, BBC Radio Cymru, 30 Mawrth 2013.

[3] Ymysg gweithiau gwerthfawr eraill ceir rhifyn arbennig o *Gylchgrawn Hanes Cymru*, Rhagfyr 1917; Matthews, Gethin (gol.) (2016), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru); Barlow, Robin (2014), *Wales and World War One* (Llandysul: Gomer); Eirug, Aled (2018), *Gwrthwynebwyr Cydwybodol i'r Rhyfel Mawr* (Llanrwst: Carreg Gwalch); Hughes, Clive (2014), *'I'r Fyddin Fechgyn Gwalia!' Recriwtio i'r Fyddin yng Ngogledd-Orllewin Cymru, 1914–1916* (Llanrwst: Carreg Gwalch); Jenkins, Gwyn (2014), *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa); Powel, Meilyr (2018), '"Beth os mai hon yw Armagedon?": Crefydd a'r Wasg Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf', *Gwerddon*, 27 (Hydref), 67–94.

[4] Am y defnydd o bapurau newydd gan haneswyr Cymru, y gwaith safonol yw Jones, Aled (1993), *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru). Am y defnydd o bapurau newydd gan haneswyr yn gyffredinol gweler Vella, Stephen (2009), 'Newspapers', yn Dobson, Miriam a Ziemann, Benjamin (goln), *Reading Primary Sources: The Interpretation of Texts from 19th and 20th Century History* (Abingdon: Routledge), tt. 192–208.

[5] Trwy wefan papuraunewydd.llyfrgell.cymru y mae'n bosibl darganfod nifer sylweddol o'r papurau

yn y cyhoeddiadau yn y misoedd dan sylw. Mae'r broses hon yn caniatáu i nifer fawr o erthyglau gael eu hystyried: mwy nag a fyddai'n bosibl wrth chwilio â llaw trwy'r hen rifynnau.[6] Gyda thechnoleg OCR mor ddibynadwy erbyn hyn, mae'n bosibl i'r ymchwilydd ddarganfod erthyglau sydd â chyfeiriadau diddorol, er na fyddai neb yn tybio hyn wrth edrych ar y teitl yn unig.[7] Gellir gweld y patrymau o ymatebion yn ffurfio, ac olrhain safbwyntiau unigolion wrth iddynt dderbyn mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae heriau gyda'r fethodoleg hon, yn benodol oherwydd nad yw'r casgliadau yn gynhwysfawr: beth, felly, am y papurau newydd na chawsant eu dethol i'w digido?[8] Er hyn, mae'r ffaith bod casgliad y Llyfrgell Genedlaethol o bapurau ar-lein yn cynnwys papurau o bob cwr o Gymru, o sawl cefndir gwleidyddol ac yn y ddwy iaith, yn golygu ein bod ni'n gallu hyderu bod y safbwyntiau a fynegwyd yn gynrychiadol o'r amrywiaeth barn oedd yn bodoli yng Nghymru ar y pryd.

Trwy ganolbwyntio ar yr adroddiadau o'r misoedd perthnasol yn 1916 fe welwn fod y safbwyntiau yn wahanol eu naws i'r rhai a ddaeth yn gyffredin yn y degawdau ers hynny. Edrychir ar rai o'r ffactorau sydd yn ein cynorthwyo i egluro hyn, yn enwedig sut yr oedd y digwyddiadau yn Nulyn yn cael eu deall fel rhan o'r rhyfel hollgwmpasog a oedd yn cymryd lle blaenllaw ym meddyliau'r sylwebwyr. Cyfyngiad arall a oedd yn llesteirio ystyriaethau'r sylwebwyr oedd eu bod yn ddeiliaid i'r ymerodraeth a oedd (fel y nodwyd dro ar ôl tro) y fwyaf a welodd y byd erioed. Felly i'r mwyafrif helaeth o Gymry'r cyfnod, roedd ymgyrch cnewyllyn bach o wrthryfelwyr yn erbyn yr Ymerodraeth ar adeg pan oedd hi o dan fygythiad dwys nid yn unig yn weithred o frad annheyrngar, ond hefyd yn ffwlbri noeth. Wrth edrych ar sut yr oedd rhai o'r prif leisiau yn y cylch cyhoeddus yng Nghymru yn trafod digwyddiadau 1916 yn Iwerddon, cawn weld beth oedd eu dealltwriaeth o le Cymru yn y byd, a'u dyheadau am ddyfodol eu gwlad.

Nid oes bwriad yn yr erthygl hon i roi dadansoddiad manwl o'r symudiadau a arweiniodd at lansio gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Prydain yn 1916. Yn naturiol ddigon, mae digwyddiadau'r Pasg yn Nulyn wedi derbyn toreth o sylw gan haneswyr Gwyddelig.[9] Gan fod y wladwriaeth a sefydlwyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ei hystyried ei hunan yn blentyn i'r Gwrthryfel, mae'n ddealladwy bod haneswyr Gwyddelig am ddegawdau wedi rhamantu am y digwyddiad a'i gyflwyno mewn ffordd ddelfrydol: yr hyn y mae Fearghal McGarry yn ei alw 'the historical

---

newydd a grybwyllir fan hyn, a thrwy cylchgronau.llyfrgell.cymru y mae modd dod o hyd i *Cymru* a'r *Welsh Outlook*. Mae'r *Western Mail* ar gael trwy wefan British Newspaper Archives. Mae'n rhaid edrych ar y copïau caled i ddarllen cynnwys *Y Dysgedydd*, *Seren Gomer* a'r *South Wales Daily News*.

6 Bingham, Adrian (2010), 'The Digitization of Newspaper Archives: Opportunities and Challenges for Historians', *Twentieth Century British History*, 21.2, 225–31.

7 Johnes, Martin a Nicholson, Bob (2015), 'Sport History and Digital Archives in Practice', yn Osmond, Gary a Phillips, Murray G., *Sport History in the Digital Era* (Urbana: University of Illinois Press), tt. 53–74.

8 Beach, Brian a Hanlon, W. Walker (2023), 'Historical newspaper data: A researcher's guide', *Explorations in Economic History*, yn enwedig tt. 2–4 o'r fersiwn ar-lein: <https://doi.org/10.1016/j.eeh.2023.101541>.

9 Ar gyfer yr hanesyddiaeth hyd at yr hanner canmlwyddiant, y gwaith safonol yw Martin, Francis Xavier (1968), 'The 1916 Rising: A "Coup d'État" or a "Bloody Protest"?', *Studia Hibernica*, 8, 106–37.

myth of the Rising'.[10] Fodd bynnag, gyda'r *Troubles* o'r 1960au ymlaen yn aflonyddu'r sefyllfa ac yn peri i waed lifo, unwaith yn rhagor, ar yr ynys, fe gododd nifer o haneswyr eu lleisiau i gwestiynu'r dathliadau digwestiwn o etifeddiaeth y Gwrthryfel.[11] Bellach mae haneswyr yn cydnabod nad oedd digwyddiadau'r Gwrthryfel yn rhedeg yn gyfochrog â'r Rhyfel Mawr, ond yn hytrach roeddent yn hollol glwm wrth amgylchiadau a chwrs y rhyfel.[12] Fel y dywed McGarry, dim ond trwy lens y rhyfel ehangach y mae'n bosibl ddeall ymateb yr awdurdodau Prydeinig i'r Gwrthryfel.[13] Felly, mae'r hanesyddiaeth Wyddelig ddiweddarach yn rhoi hanes Pasg 1916 yn Nulyn nid yn unig mewn cyd-destun Gwyddelig ehangach, ond o fewn patrwm o ddigwyddiadau a datblygiadau'r rhyfel byd-eang.

Teg dweud nad yw haneswyr Prydeinig bob amser yn ystyried bod digwyddiadau Gwrthryfel y Pasg o bwys wrth ysgrifennu am gyflafanau ar draws y byd yn 1914–18. Mewn bron i bum cant o dudalennau yn ei lyfr sydd â'r is-deitl 'A Complete History', rhydd Martin Gilbert dri pharagraff byr am y Gwrthryfel.[14] Gallwn weld nifer o ysgrifau am Gymru a'r Rhyfel Mawr hefyd sy'n anwybyddu'r digwyddiad.[15] Un enghraifft sydd yn cynnwys yr hanes yw cyfrol Alan Llwyd, sydd â chwe thudalen lawn am agweddau'r Cymry tuag at y Gwrthryfel, a hanes y ddau filwr ifanc o Gymru a laddwyd yno.[16] Fe noda Llwyd fod y rhan fwyaf o'r sylwebwyr yn y papurau newydd cyfredol yn hallt eu beirniadaeth o'r gwrthryfelwyr: un eithriad i'r rheol hon sydd wedi derbyn sylw mewn amryw erthygl academaidd yw'r cenedlaetholwr ifanc D. J. Williams, a ddangosodd gydymdeimlad â'r 'Sinn Ffeiniaid'.[17] Dyfynna Caoimhín De Barra eiriau Williams a hefyd ganmoliaeth yr undebwr llafur Arthur Horner i uchelgais rhai o'r gwrthryfelwyr i wella cyflwr y dosbarth

---

10 McGarry, Fearghal (2013), '1916 and Irish Republicanism: between Myth and History', yn Horne, John a Maddigan, Edward (goln), *Towards Commemoration: Ireland in War and Revolution 1912–1923* (Dublin: Royal Irish Academy), tt. 46–53 (52).

11 McCarthy, Mark (2016), *Ireland's 1916 Rising: Explorations of history-making, commemoration and heritage in modern times* (London: Routledge), tt. 278–334; O'Callaghan, Margaret (2016), 'Reframing 1916 after 1969: Irish Governments, a National Day of Reconciliation and the politics of commemoration in the 1970s', yn Grayson, Richard S. a McGarry, Fearghal (goln), *Remembering 1916: The Easter Rising, the Somme and the politics of memory in Ireland* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 207–23.

12 Am ymdriniaethau manwl diweddar â'r Gwrthryfel, gweler McGarry, Fearghal (2010), *The Rising: Ireland: Easter 1916* (Oxford: Oxford University Press); Townshend, Charles (2015), *Easter 1916: The Irish Rebellion*, Argraffiad Newydd (London: Penguin); Allen, Kieran (2016), *1916: Ireland's revolutionary tradition* (London: Pluto Press) ac Edwards, Ruth Dudley (2016), *The Seven: The Lives and Legacies of the Founding Fathers of The Irish Republic* (London: Oneworld). Yn yr olaf ceir safbwynt hallt iawn am drefnwyr y Gwrthryfel.

13 McGarry, '1916 and Irish Republicanism', t. 52.

14 Gilbert, Martin (2014), *The First World War: A Complete History* (New York: RosettaBooks), tt. 225–6.

15 Mae hyn yn wir am Barlow, *Wales and World War One*; Jenkins, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf*; a'r gyfrol a olygais: Matthews, Gethin (2016), *Creithiau*.

16 Llwyd, Alan (2018), *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer), tt. 395–400.

17 Griffiths, J. Gwyn (1973), 'Ysgrif a Gladdodd Gylchgrawn', *Y Traethodydd,* 128, 547 (Ebrill), 114–17; Chapman, Robin, *Toriad y Wawr: twf a thranc cylchgrawn Cymraeg cyntaf myfyrwyr Aberystwyth*, <https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/collections/special-collections/ww1/wawr/> [Cyrchwyd: Mehefin 2023].

gweithiol, ond dengys dadansoddiad De Barra mai lleiafrif bychan oedd y lleisiau hyn.[18] Fel y noda Paul O'Leary, nid oedd hyd yn oed y Gwyddelod yng Nghymru adeg y Rhyfel Mawr yn cydymdeimlo â'r rhai a oedd yn brwydro dros annibyniaeth i'r wlad.[19]

Dengys y dystiolaeth sut yr oedd cysgod y frwydr yn erbyn yr Almaen mor ormesol nes bod digwyddiadau yn Iwerddon yn cael eu dadansoddi trwy lens y rhyfel ehangach. Ar adeg pan oedd teyrngarwch i'r Ymerodraeth Brydeinig yn ganolog i'r disgwrs, nid oedd cydymdeimlad na dealltwriaeth ar gael i unrhyw un a wrthodai ymrwymo i'r achos.[20] Nid oedd yr un o brif sylwebwyr Cymru yn ystyried arwyddocâd chwyldroadol Gwrthryfel y Pasg ar y pryd, ac nid oedd y digwyddiad ym mlaen eu meddyliau yn y misoedd canlynol.[21]

Man cychwyn yr erthygl yw cyflwyno trosolwg o'r agweddau mwyaf cyffredinol tuag at Iwerddon yng Nghymru yn y degawdau hyd at 1914, ac yna ystyried sut yr esblygodd y syniadau ym misoedd cynnar y rhyfel yn sgil tyndra a straen yr ymgyrch. Nid oedd y berthynas rhwng y Cymry a'r Gwyddelod yn esmwyth yn y degawdau a oedd yn arwain at y Rhyfel Mawr, ac am nifer o resymau nid oedd Iwerddon yn cynnig cynsail y gallai Cymru ei hefelychu. Mewn termau economaidd, yn syml, roedd masnach glo a diwydiannau trwm y de yn golygu bod gwedd lawer iachach ar economi Cymru nag eiddo Iwerddon. Mewn termau diwylliannol, roedd gwahaniaethau crefyddol yn gallu bod yn achos rhagfarn a drwgdybiaethau. Roedd y mewnfudo o'r Ynys Werdd i Gymru, a ddigwyddodd ar raddfa sylweddol o ddyddiau'r Newyn Mawr ymlaen, yn gallu achosi tyndra. Gyda rhai Gwyddelod yn troi at ddulliau treisgar er mwyn hybu eu hachos, fe godai ofnau yn achlysurol yn niwylliant poblogaidd Cymru am berygl y Ffeniaid.[22]

Trwy gydol degawdau olaf teyrnasiad Victoria, roedd mater ymreolaeth Iwerddon ar yr agenda wleidyddol, ac fe barodd hyn deimladau cymysg ymysg yr Aelodau Seneddol Cymreig. Ar y naill llaw, roedd nifer yn gallu cydymdeimlo ag achos y cenedlaetholwyr Gwyddelig, gan fod annhegwch y sefyllfa yn Iwerddon yn amlwg i bawb a oedd yn fodlon edrych. Weithiau roedd y gyffelybiaeth rhwng achwyniadau yn y ddwy wlad yn amlwg. Cafodd yr Eglwys (Anglicanaidd) ei datgysylltu yn Iwerddon yn 1869: y flwyddyn ganlynol, pan gyflwynodd Watkin Williams ei fesur yn y Senedd i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru,

---

[18] De Barra, Caoimhín (2018), *The Coming of the Celts, AD 1860: Celtic Nationalism in Ireland and Wales* (Notre Dame: University of Notre Dame Press), tt.258–62.

[19] O'Leary, Paul (2017), 'Wales and the First World War: Themes and Debates', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 28.4 (Rhagfyr), 591–617 (t. 615).

[20] Am agweddau'r Cymry tuag at yr Ymerodraeth Brydeinig, gweler Jones, Aled a Jones, Bill (2003), 'The Welsh World and the British Empire, *c*.1851–1939: An Exploration', *Journal of Imperial and Commonwealth History*, 31 (2), 57–81; Jones, Aled a Jones, Bill (2004), 'Empire and the Welsh Press', yn Potter, Simon J. (gol.), *Newspapers and Empire in Ireland and Britain* (Dublin: Four Courts Press), tt. 75–91; Millward, Edward (2010), 'Y Gymru Newydd a'r Imperialaeth Newydd', *Y Traethodydd*, 694 (Gorffennaf), 145–63; Millward, Edward (2012), 'Rhagor am Gymru a'r Imperialaeth Newydd', *Y Traethodydd*, 702 (Ionawr), 12–29.

[21] Nid oes dadl yma gyda dadansoddiad De Barre (*The Coming of the Celts*, tt. 264–88), sydd yn awgrymu bod nifer o ddeallusion Cymru *wedi* cymryd diddordeb mawr mewn datblygiadau yn Iwerddon yn y blynyddoedd wedi 1919, gan ystyried y gwersi ar gyfer y posibiliadau i Gymru.

[22] O'Leary, Paul (2000), *Immigration and Integration: The Irish in Wales – 1798–1922* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 249–53.

defnyddiodd Iwerddon fel cynsail.[23] Ond ar y llaw arall, byddai buddsoddi amser ac egni mewn achosion Gwyddelig o reidrwydd yn golygu bod llai o bwyslais yn cael ei roi ar achosion Cymreig. Gwelwyd yn ddigon rheolaidd ddadleuon bod achos cenedlaethol Cymru yn gryfach nag achos Iwerddon, a'i bod yn bwysicach i gynrychiolwyr gwleidyddol Cymru flaenoriaethu ymgyrchoedd Cymreig a Chymraeg goruwch unrhyw fesurau i wella sefyllfa Iwerddon. Dyma fyrdwn araith y David Lloyd George ifanc i gynhadledd y Rhyddfrydwyr ym mis Chwefror 1890, tra oedd yn ymgeisydd y blaid ar gyfer sedd bwrdeistrefi Arfon.[24]

Fodd bynnag, fel y mae Paul O'Leary wedi ei ddangos, fe ddaeth gwleidyddion Cymru i addasu eu safbwyntiau tuag at Iwerddon dros ddegawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif. Er bod anesmwythder o hyd ynghylch y duedd tuag at drais gwleidyddol yn Iwerddon, fe ddechreuodd rhai Rhyddfrydwyr Cymreig weld y mudiad cenedlaethol Gwyddelig fel rhywbeth i'w efelychu. Yn y 1880au, gyda Tom Ellis yn lladmerydd brwd dros achos ymreolaeth Iwerddon, fe dyfodd cytgord, os nad cynghrair, rhwng y rhai a oedd yn ymgyrchu dros ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru a chenedlaetholwyr Iwerddon.[25] Pan dderbyniodd y Blaid Ryddfrydol yn 1891 mai'r ail flaenoriaeth ar ôl Ymreolaeth i Iwerddon oedd Datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru, sicrhawyd y byddai'r mwyafrif o wleidyddion Rhyddfrydol Cymru yn gefnogwyr brwd i'r achos cyntaf, er mwyn sicrhau'r ail.[26] Erbyn 1895, ac yntau bellach yn Aelod Seneddol, roedd Lloyd George yn datgan y dylai Cymru fabwysiadu tactegau'r Gwyddelod.[27]

Cafwyd rhwystredigaethau dros y blynyddoedd nesaf, gyda thyndra ynghylch gweinyddu Deddf Addysg y Ceidwadwyr yn 1902 yn arwain at rwyg rhwng y Pabyddion a'r Anghydffurfwyr.[28] Yna, ar ddiwedd 1905, wedi dros ddegawd o lywodraeth y Ceidwadwyr, fe ddaeth y Blaid Ryddfrydol i rym gyda llu o syniadau radical. Yn sgil brwydr danllyd dros y Gyllideb yn 1909–10, pan fynnodd Lloyd George a'i gynghreiriaid sicrhau nifer o fesurau pellgyrhaeddol, fe ddaeth Deddf y Senedd, 1911, a ffrwynodd bwerau Tŷ'r Arglwyddi.[29] Ar ôl etholiad 1910 fe ddibynnai'r Weinyddiaeth Ryddfrydol ar gefnogaeth Cenedlaetholwyr Iwerddon, ac felly rhoddwyd hwb i'r mudiad dros ymreolaeth. Gyda rhwystr Tŷ'r Arglwyddi bellach wedi'i symud o'r neilltu, roedd modd i'r trafodaethau cyfansoddiadol symud yn eu blaen. Fodd bynnag, gydag Unoliaethwyr Ulster yn gwrthod unrhyw gyfaddawd, ac yn

---

[23] O'Leary, Paul (1999), 'Religion, Nationality and Politics: Disestablishment in Ireland and Wales, 1868–1914', yn Guy, John R., a Neely, W. G. (goln.), *Contrasts and Comparisons: Studies in Irish and Welsh Church History* (Llandysul: Gomer), tt. 89–112 (95–6).

[24] (1890), 'Y Gynnadledd Brydnawnol', *Baner ac Amserau Cymru*, 12 Chwefror, t. 4.

[25] O'Leary, 'Religion, Nationality and Politics', tt. 100–2.

[26] Morgan, Kenneth O. (1970), *Wales in British Politics, 1868–1922,* Argraffiad Diwygiedig (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 68–73; 138–9.

[27] O'Leary, Paul (2021), 'Lloyd George, Empire and the Making of Modern Ireland', *Darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig*, <https://www.library.wales/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/casgliadau/archifau/archif_wleidyddol/darlith_awg/dar-awg-pauloleary-2021.pdf>.

[28] Jones, Gareth Elwyn (2002), 'Policy and Power: One hundred years of Local Education Authorities in Wales', *Oxford Review of Education*, 28 (2–3), 343–58 (344–6).

[29] Morgan, Kenneth O. (2014), 'Lloyd George as a Parliamentarian', yn ei *Revolution to Devolution: Reflections on Welsh Democracy* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 101–16.

ymarfogi'n agored i amddiffyn eu hawliau i fod yn Brydeinwyr, roedd y sefyllfa yn edrych yn bur dywyll ym misoedd cynnar 1914.[30]

Y farn gyffredinol yn y wasg Ryddfrydol Gymreig oedd mai'r Unoliaethwyr oedd yn bennaf gyfrifol am yr anghydfod a'r tensiwn cynyddol.[31] Galwyd Syr Edward Carson, arweinydd yr Unoliaethwyr, yn 'arweinydd y gwrthryfel' gan *Yr Herald Cymraeg*.[32] I gyhoeddiadau fel papur newydd y Methodistiaid Calfinaidd, *Y Goleuad*, Unoliaethwyr Ulster oedd y drwg yn y caws: 'Ni foddlonir y gwir Oreinwyr ond a llofruddiaeth gobaith y genedl Wyddelig'.[33]

Hyd yn oed ym mis Gorffennaf, gyda digwyddiadau ar y cyfandir yn symud y byd yn nes at y dibyn yn ddyddiol, roedd llawer mwy o bryder ym mhapurau newydd Cymru am y perygl o ffrwydrad yn Iwerddon.[34] Cyfeiria'r pennawd 'Yr Argyfwng' yn *Yr Herald Cymraeg* wythnos cyn dechrau'r Rhyfel Mawr at y trafferthion Gwyddelig, nid at yr anghydfod rhwng pwerau mawr Ewrop.[35]

Un o ganlyniadau cychwyn y rhyfel ar ddechrau Awst 1914 oedd gwyrdroi'r sefyllfa wleidyddol yn Iwerddon: roedd rheolau'r gêm wedi newid dros nos. Bellach, yr hyn oedd yn angenrheidiol i'r gwleidyddion oedd profi eu ffyddlondeb a'u hymroddiad i'r ymgyrch Brydeinig, neu wynebu'r bygythiad o gael eu cau allan o drafodaethau'r llywodraeth. Ar ôl chwe wythnos o'r rhyfel, ar 18 Medi 1914, fe basiwyd deddfau Ymreolaeth Iwerddon a Datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru, ond fe ataliwyd eu gweithredu tan ar ôl y rhyfel.[36] Gallwn weld y gyffelybiaeth rhwng y sefyllfa a wynebai Syr Edward Carson (arweinydd Unoliaethwyr Iwerddon) a'r Esgob Alfred Edwards (arweinydd yr ymgyrch yn erbyn Datgysylltu) ar y naill law, ac ar y llaw arall, John Redmond (arweinydd Cenedlaetholwyr Iwerddon) a'r Parchedig John Williams, Brynsiencyn (llywydd Cyngor Cenedlaethol Eglwysi Efengylaidd Cymru). Yr unig lygedyn o obaith i Carson, Edwards ac eraill a wrthwynebai'r deddfau oedd profi bod eu carfan hwythau yn deyrngar i'r eithaf, a gweiddi'n groch y byddai'n annheg pe na byddai eu teyrngarwch yn cael ei wobrwyo trwy wyrdroi'r deddfau hyn. O ganlyniad i'r ymgyrchoedd adweithiol, rhoddwyd Redmond a John Williams yn

[30] aan de Wiel, Jérôme (2011), 'The "Irish factor" in the outbreak of war in 1914', *History Ireland*, 19.4 (Gorffennaf/Awst), 32–5; Irish, Tomás (2015), *Trinity in War and Revolution 1912–1923* (Dublin: Royal Irish Academy), tt. 47–8.

[31] Nid dyna oedd barn y papurau Ceidwadol yn 1914, fodd bynnag. Gweler, er enghraifft, 'Ulster stands firm', *North Wales Chronicle*, 23 Ionawr, t. 4 a 'The worthless offer', *North Wales Chronicle*, 13 Mawrth, t. 4; 'Ulster stands firm', *Carmarthen Journal*, 23 Ionawr, t. 4 a 'We appeal to the people', *Carmarthen Journal*, 13 Mawrth, t. 4.

[32] (1914), 'Arweinydd y Gwrthryfel', *Yr Herald Cymraeg*, 14 Ebrill, t. 8. Gweler hefyd (1914), 'Helynt Ulster', *Yr Herald Cymraeg*, 24 Mawrth, t. 8.

[33] (1914), 'Nodiadau wythnosol', *Y Goleuad*, 26 Mai, t. 3.

[34] Am ddadansoddiad manwl o hyn, gweler Powel, Meilyr (2017), 'The Welsh press and the July Crisis of 1914', *First World War Studies*, 8, <http://doi.org/10.1080/19475020.2017.1385408>.

[35] (1914), 'Yr Argyfwng', *Yr Herald Cymraeg*, 28 Gorffennaf, t. 4. Gweler hefyd, er enghraifft, (1914), 'Gwlad a Senedd', *Y Darian*, 23 Gorffennaf, t. 1.

[36] Am ddau safbwynt cyfredol gwahanol iawn, gweler (1914), 'Datgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys', *Y Cymro*, 23 Medi, tt. 8–9 a 'Cynlluniau Dirmygus y Llywodraeth', *Y Llan*, 18 Medi, t. 3.

yr un cwch: roedd yn rhaid iddynt hwythau, hefyd, gael eu gweld yn cefnogi'r ymgyrch Brydeinig.[37]

Cafodd gweithredoedd John Redmond ganmoliaeth frwd ym mhapurau newydd Cymru wrth iddo apelio'n daer ar i wŷr ieuainc Iwerddon wneud eu dyletswydd ac 'ymrestru dan faner yr Ymerodraeth'. Mae geirau'r *Cymro* ym mis Medi 1914 yn gynrychiadol, er iddynt gyfleu syniadaeth sydd, siŵr o fod, yn ddieithr i ni heddiw ar fwy nag un cyfrif: 'Fe brofa'r Iwerddon ei theyrngarwch trwy golli afonydd o waed ei meibion ar faes y frwydr'.[38] Y naratif a gyflëir gan y rhelyw o bapurau newydd Cymru ym misoedd cynnar y rhyfel yw bod gwledydd ynysoedd Prydain, ynghyd â gwledydd yr Ymerodraeth deyrngar, yn cyd-dynnu i wasanaethu'n ddewr yn yr ymgyrch gyfiawn yn erbyn bwystfileiddiwch yr Almaenwyr a'u cynghreiriaid. Y stori a wëir yw un o feibion glew o wledydd cydradd, yn gwirfoddoli i wasanaethu'r brenin yn Llundain a'r Brenin nefol. Mae'n bosib mai'r sylwebydd mwyaf dylanwadol wrth gyflwyno'r ornest yn y termau hyn oedd Owen M. Edwards, a oedd, ymysg ei gyfrifoldebau eraill, yn sylfaenydd a golygydd y cylchgrawn *Cymru*.[39] Newyddiadurwr dylanwadol arall a bwysleisiodd rôl y Cymry mewn ymgyrch anrhydeddus oedd Beriah Gwynfe Evans.[40] Cyfieithodd yntau gerdd wladgarol-Seisnig Harold Begbie, 'Fall in', i'r Gymraeg yn wythnosau cyntaf y rhyfel. Mae hon yn cyfeirio at yr ornest fel 'Rhyfel dros Ryddid Dyn', a cheir galwad 'I gadw'r Hen Wlad, i godi'r Hen Wlad': mae'n newid y llinell olaf, 'And England's Call is God's', i 'Clyw Alwad dy Wlad, a'th Dduw'.[41]

Gydag ychydig o eithriadau, dyna'r naratif a gyflwynwyd i ddarllenwyr papurau newydd Cymru (a gweddill Prydain) trwy gydol y rhyfel, hyd yn oed pan oedd yr ymladd yn parhau heb unrhyw arwydd ei fod yn nesáu at ei derfyn, a'r rhagolygon yn dywyll iawn.[42] Fe ŵyr pawb sydd yn gyfarwydd â'r ymgyrch mai ffolineb a gwastraff oedd yr ymosodiadau ar Galipoli yn 1915, ond ceir straeon yn y wasg Gymreig sydd yn clodfori '[g]wrhydri mawr y milwyr o Awstralia ... a'r dewrder mawr ddangoswyd gan Adran Wyddelig o'r Fyddin Newydd', heb anghofio, wrth reswm, am gyfraniad 'bechgyn glewion' Cymru.[43] Un agwedd hanfodol i gryfhau'r naratif oedd y ffordd y cyflwynwyd gweithgareddau'r Almaenwyr yn gyson fel rhai ciaidd ac anwaraidd. Roedd y papurau yn atgoffa eu darllenwyr yn rheolaidd am y rhestr hir o erchyllterau o du'r Almaenwyr, megis yn y rhifyn o'r *Cymro* a gyhoeddwyd flwyddyn wedi dechrau'r rhyfel, a restrodd chwech o weithgareddau dieflig lluoedd arfog y

[37] Am ddadansoddiad manwl o'r gymhariaeth, gweler Matthews, Gethin (2016), "Un o Ryfeloedd yr Arglwydd": Eglwysi Anghydffurfiol Cymru a'r Rhyfel Mawr, 1914–15', yn *Creithiau*, tt. 34–62 (54–5).

[38] (1914), 'Mr Asquith yn Nublin', *Y Cymro*, 30 Medi, t. 3.

[39] <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-MOR-1858>. Am drafodaeth o'i safbwynt tuag at yr Ymerodraeth, gweler Matthews, Gethin (2016), ''Un o Flynyddoedd Rhyfeddaf Hanes": cyflwyno'r Rhyfel Mawr yn nhudalennau *Cymru* yn 1917', yn *Creithiau*, tt. 163–82 (166–7).

[40] <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-GWY-1848>.

[41] Evans, Beriah Gwynfe (1914), 'I'r Gad', *Yr Herald Cymraeg*, 8 Medi, t. 6. Cafodd hon ei hatgynhyrchu mewn nifer o gyhoeddiadau yn 1914: gweler *Y Cymro*, 23 Medi, t. 12; *Y Darian*, 15 Hydref, t. 4; *Seren Cymru*, 16 Hydref, t. 9; *Y Tyst*, 21 Hydref, t. 4; *Herald of Wales*, 14 Tachwedd, t. 2.

[42] Pennell, Catriona (2012), *A Kingdom United: Popular Responses to the Outbreak of the First World War in Britain and Ireland* (Oxford: Oxford University Press), tt. 57–97.

[43] (1915), 'Y Rhyfel', *Yr Udgorn,* 1 Medi, t. 2; (1915), 'Meddyliau'r Galon', *Y Brython*, 14 Hydref, t. 5.

gelyn.[44] Hyd yn oed pan nad oedd yr Almaen yn gyfrifol am erchyllterau eu cynghreiriaid, er enghraifft pan laddwyd cannoedd o filoedd o Armeniaid gan y Tyrciaid, roedd papurau Cymru yn rhoi'r bai ar y Kaiser.[45]

Felly, i bapurau newydd Cymru yng ngwanwyn 1916, roedd y Gwyddelod yn gymheiriaid a chyfeillion ffyddlon yn y gynghrair o luoedd da yn erbyn bygythiad tywyll yr Almaen. Nododd papur newydd Abertawe pa mor boblogaidd oedd gwisgo arwyddion Gwyddelig ar ddydd Sant Padrig, beth bynnag oedd cefndir crefyddol neu genedlaethol yr unigolion.[46] Mae'n adlewyrchu'r hyn a welwyd hefyd yn y papurau Llundeinig, a oedd bob amser yn awyddus i nodi cyfraniad cyfeillion Lloegr at yr ymgyrchoedd.[47]

Wrth gwrs, nid dyna oedd safbwynt lleiafrif o Wyddelod, a oedd yn gweld bod anhawster Lloegr yn rhoi cyfle i Iwerddon.[48] O ran niferoedd, mae'n arwyddocaol bod dros 90% o ddynion y Gwirfoddolwyr Gwyddelig (Irish Volunteers, Óglaigh na hÉireann) wedi dewis Redmond a'i ymlyniad wrth ymgyrch ryfel Prydain yn hytrach na safbwynt ychydig o arweinwyr y mudiad a oedd yn erbyn y syniad o ymladd ar ochr Prydain.[49]

Nid dyma'r lle i fanylu ar yr unigolion a oedd ynghlwm â'r penderfyniad i lansio gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Prydain, ond mae'n werth oedi i ystyried gweithredoedd Syr Roger Casement. Roedd o gefndir Protestannaidd yng ngogledd yr ynys, ac roedd yn ddiplomydd yng ngwasanaeth Prydain pan ddaeth i amlygrwydd fel ymgyrchydd dros hawliau'r brodorion yng nghyfundrefn greulon y Belgiaid yn y Congo ac yn nhiroedd y barwniaid rwber yn yr Amason. Nododd papurau newydd Cymru ei waith dyngarol gwerthfawr.[50] Fe'i hurddwyd yn 1911 am ei waith yn datgelu gweithredoedd gwarthus y Peruvian Amazon Company wrth iddynt gam-drin brodorion y Putumayo.[51] Fodd bynnag, yr oedd wedi cofleidio syniadau cenedlaetholgar Gwyddelig ers blynyddoedd, ac fe ymddiswyddodd o wasanaeth Ei Fawrhydi yn 1913. Wedi i Unoliaethwyr Ulster sicrhau cyflenwad o arfau ym mis Ebrill 1914, roedd Casement yn un o'r criw a gynllwyniodd i gludo cyflenwad o reiffls i arfogi'r Gwirfoddolwyr Gwyddelig ym mis Gorffennaf 1914.[52] Pan ddechreuodd y rhyfel

---

[44] (1915), 'Celwyddau Germani', *Y Cymro*, 4 Awst, t. 3. Ar gyfer dadansoddiad o sut y gwelwyd yr agwedd hon yn gyffredinol ymysg y Cynghreiriaid, gweler Audoin-Rouzeau, Stéphane a Becker, Annette (2002), *14–18: Understanding the Great War* (New York: Hill and Wang), tt. 46–54.

[45] (1915), 'Appeal to Young Wales', *Llangollen Advertiser*, 17 Rhagfyr, t. 3.

[46] (1916), 'Irish Flag Day', *Cambria Daily Leader*, 17 Mawrth, t. 4.

[47] Gweler Black, J. A. (2004), 'Ordeal and re-affirmation: masculinity and the construction of Scottish and English national identity in Great War memorial sculpture, 1919–30', yn Kidd, William a Murdoch, Brian (goln), *Memory and Memorials: The Commemorative Century* (Aldershot: Ashgate), tt. 75–91, (75–7).

[48] Bathwyd yr ymadrodd 'England's difficulty is Ireland's opportunity' yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Ratcliffe, Susan (2011), *Oxford Treasury of Sayings and Quotations* (Oxford: Oxford University Press), t. 239).

[49] McGarry (2013), '1916 and Irish Republicanism', t. 49. Ceir y ffigur o 93 neu 94% yn McGarry (2010), *The Rising*, t. 85.

[50] Gweler, er enghraifft, (1904), 'Creulonderau ar Lanau y Congo', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Chwefror, t. 4.

[51] Gweler ei dystiolaeth a gyhoeddwyd yn (1912) 'Hunted for his Labour', *Western Mail*, 14 Tachwedd, t. 5.

[52] Townshend, *Easter 1916*, tt. 54–6.

roedd Casement ar daith yn yr Unol Daleithiau yn ymweld â chymunedau Gwyddelig gan geisio codi ymwybyddiaeth a chodi arian ar gyfer achos y Gwirfoddolwyr. Fe drefnodd gyfarfod â diplomydd uchel-radd Almaenig er mwyn ceisio sicrhau cefnogaeth yr Almaen i achos Iwerddon, ac ym mis Hydref fe hwyliodd i'r Almaen er mwyn hyrwyddo'r cynllun hwn. Bu'n ymweld â gwersylloedd carcharorion rhyfel i geisio recriwtio milwyr Gwyddelig ar gyfer 'Brigâd Wyddelig' i ymladd yn erbyn Prydain.[53] Roedd ei daith i'r Almaen yn hysbys i ddarllenwyr y papurau newydd Cymreig: datganodd *Y Goleuad* ei siom bod '[d]yn a berchid gan bawb' yn flaenorol bellach wedi dangos y fath 'fradwriaeth'.[54]

Fodd bynnag, gyda chymaint o newyddion o bwys yn cyrraedd o feysydd y gad, ychydig iawn o sylw a gafodd datblygiadau Gwyddelig ym mhapurau newydd Cymru. Yn ddirgel, tra oedd Casement allan o'r wlad, fe gynlluniodd nifer o arweinwyr y Frawdoliaeth Weriniaethol Wyddelig (Irish Republican Brotherhood / Bráithreachas Phoblacht na hÉireann) ymgyrch filwrol i daro yn erbyn y wladwriaeth Brydeinig yn Iwerddon. Yn wir, cennad Casement wrth ddychwelyd i Iwerddon ym mis Ebrill 1916 oedd ceisio darbwyllo trefnwyr y gwrthryfel i beidio â chychwyn eto, gan nad oedd cymorth digonol ar ei ffordd o'r Almaen.[55] Er gwaetha'r ffaith bod arweinwyr yr ymgyrch yn synhwyro nad oedd unrhyw obaith o lwyddiant milwrol ac er gwaetha'r ffaith bod cyfathrebu gwael yn golygu nad oedd llawer o gefnogwyr yn gwybod beth oedd y cynllun, fe lansiodd y Frawdoliaeth Weriniaethol Wyddelig eu gwrthryfel yn erbyn y wladwriaeth Brydeinig ar ddydd Llun y Pasg, 24 Ebrill 1916.[56]

O ran yr adroddiadau yn y papurau newydd Cymreig ar y pryd, gellir nodi ychydig o bwyntiau o bwys. Yn gyntaf, roedd y gwrthryfel yn annisgwyl ac yn sioc i fwyafrif y golygyddion. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, byddai rhai sylwebwyr yn ddoeth drannoeth y drin ac yn gallu gweld hadau'r anghydfod yn amlwg wrth edrych yn ôl, ond ychydig iawn o'r adroddiadau cyfoes oedd yn hawlio y byddai wedi bod yn bosibl rhagweld y gwrthryfel.[57]

Yn ail, roedd yn rhaid i'r adroddiadau am y digwyddiad gystadlu am ofod yn erbyn yr hyn a oedd yn digwydd ar Ffrynt y Gorllewin, a chadfeysydd eraill y rhyfel ym misoedd cynnar 1916. Roedd yr Almaenwyr yn lansio ymgyrchoedd ffyrnig, hynod o waedlyd, yn erbyn y Ffrancwyr yn Verdun. Rhwng y ddwy ochr roedd o gwmpas 750,000 o golledion (y meirw a'r clwyfedig) yn ystod y 300 diwrnod o ymladd. Yr un wythnos â'r gwrthryfel, fe ddaeth y newydd bod miloedd o filwyr Prydain wedi gorfod ildio i luoedd Twrci wedi

[53] Nid oedd ymgais Casement i recriwtio milwyr Gwyddelig i'w achos yn llawer o lwyddiant: er yr addewidion o driniaeth well, dim ond 56 o garcharorion a ddewisodd ymuno â'r frigâd, y rhan helaeth ohonynt oherwydd ymdrechion offeiriaid Gwyddelig-Americanaidd.

[54] (1914), 'Iwerddon', *Y Goleuad*, 4 Rhagfyr, t. 3.

[55] Jeffery, Keith (2000), *Ireland and the Great War* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 50. Wrth gwrs, nid oedd gwir bwrpas menter Casement yn hysbys i'r cyhoedd ar y pryd.

[56] Dadleua Kieran Allen (yn *1916*, tt. 28–30) yn erbyn y syniad mai 'aberth waed' fwriadol oedd y Gwrthryfel. Fodd bynnag, mae'n cydnabod (t. 36) bod yr arweinwyr yn gwybod bod 'the odds were stacked against them'.

[57] Eithriad, felly, yw sylwadau golygydd *Y Cymro* ar ddechrau Mai 1916: 'Mr Lloyd George, Iwerddon a Kut', *Y Cymro*, 3 Mai, t. 8.

gwarchae yn ninas Kut ym Mesopotamia.[58] Er gwaetha'r ffaith bod y digwyddiadau yn Iwerddon yn llawer nes at adref, mae'n amheus a oeddent yn cael eu hystyried yn bwysig yn nhermau ennill neu golli'r rhyfel, a *hynny*, heb os, oedd prif bryder y papurau newydd.[59]

Yn drydydd, roedd y rhai a oedd yn gwneud y cysylltiad rhwng y gwrthryfel yn Iwerddon a'r rhyfel ehangach yn gweld y cyfan fel cynllwyn Almaenig, a hynny ar sail tystiolaeth glir. Cafodd Syr Roger Casement ei gludo mewn llong danfor Almaenig i County Kerry, gan lanio ar fore 21 Ebrill (dydd Gwener y Groglith) a chael ei ddal gan yr awdurdodau yn fuan iawn wedyn. Yr un diwrnod cipiwyd llong Almaenig â llwyth o arfau oddi ar arfordir gorllewin Iwerddon. Fel y gwelir isod, roedd manylion am y newyddion yma yn hysbys i bobl yng Nghymru wrth i'r gwrthryfel gychwyn yn Nulyn. Yn enwedig wrth gofio'r teimladau o ffieidd-dod ac ofn tuag at y gelyn Almaenig ar y pryd, roedd yn anochel y byddai digwyddiadau yn Iwerddon yn cael eu gweld fel ymgais gan yr Almaen i aflonyddu ar ymgyrch Prydain yn y rhyfel byd-eang.[60]

Yn bedwerydd, ychydig o wybodaeth gadarn am y digwyddiadau yn Nulyn oedd ar gael i'r papurau newydd. Nid oedd llawer o fanylion am yr ymladd ar strydoedd y ddinas yn hysbys – yn rhannol oherwydd i'r gwrthryfelwyr dorri llinellau telegraff, ond hefyd oherwydd i'r awdurdodau geisio rhwystro lledaenu manylion y newyddion am y gwrthryfel.[61] Tila, felly, oedd y wybodaeth a ddeuai o sianeli swyddogol, ac nid oedd darlun clir o faint y gwrthryfel, nac o gadernid yr ymateb milwrol gan luoedd Prydain, am gyfnod.[62] Yna, wedi dechreuad ymgyrch y Somme ar 1 Gorffennaf, a'r dilyw o adroddiadau am farwolaethau a chlwyfau a ddilynodd, mae'n hawdd gweld bod y newyddion am ychydig gannoedd o golledion yn Nulyn yn colli'r gystadleuaeth am ofod yn y papurau.

Teg nodi, yn wahanol i nifer o ymgyrchoedd eraill lle ceir dewis o ddisgrifiadau digon manwl o'r ymladd yn y papurau newydd wedi eu tynnu o lythyrau gan filwyr Cymreig, nad oes llawer o wybodaeth gan lygad-dystion i'r brwydrau yn Nulyn yn y papurau cyfredol. Fe ddaw'r disgrifiad manylaf, mae'n debyg, yn yr adroddiadau am ladd milwr 17 oed o Gaerau, ger Maesteg. Er gwaethaf y ffaith ei fod o dan yr oedran priodol, roedd William Edgar Moy James (neu Moy i'w deulu) wedi ymuno ag uned o'r Glamorgan Yeomanry a oedd yn derbyn hyfforddiant yn Nulyn yng ngwanwyn 1916. Wrth iddynt orymdeithio i lawr North King Street ar brynhawn dydd Llun, 24 Ebrill fe gafodd ei saethu trwy ei frest gan wrthryfelwr

[58] Gweler ibid.

[59] Gweler Jeffery, *Ireland and the Great War*, tt. 51–2.

[60] Yn ogystal â Casement, roedd rhai o'r gwrthryfelwyr wedi dangos cydymdeimlad ag achos yr Almaen, ac roedd y Datganiad Annibyniaeth yn cynnwys cyfeiriad at 'our gallant Allies in Europe': gweler Jeffery, *Ireland and the Great War*, tt. 49–50. Fodd bynnag, nid oes manylion am yr agwedd hon yn y papurau newydd Cymreig.

[61] Boyce, David G. (1974), 'British Opinion, Ireland, and the War, 1916–1918', *Historical Journal*, 17, 575–93, (577–8).

[62] Cafwyd ychydig o dystiolaeth ar ffurf lluniau yn y papurau newydd dyddiol ar ddechrau mis Mai. Gweler 'The Havoc of Rebellion in the Capital of Ireland', *South Wales Daily News*, 2 Mai 1916, t. 3, ac 'Irish Rebellion: More Photographs from Dublin', *Western Mail*, 3 Mai 1916, t. 3.

a oedd yn llercian mewn adeilad gerllaw.[63] Ceir hefyd ychydig o hanes Cymro arall 17 oed, Wynford Llewellyn o Neyland, Sir Benfro, a fu farw yn yr ysbyty ar ddydd Sadwrn, 29 Ebrill, y diwrnod ar ôl i'r gwrthryfelwyr ildio.[64] Fodd bynnag, gan ystyried bod cannoedd o ddynion Cymru yn marw neu'n cael eu clwyfo bob wythnos ar feysydd y gad, efallai ei bod yn ddealladwy na chafodd y ddwy farwolaeth hyn sylw ehangach yn y papurau newydd.

Cynigiodd rhai o'r papurau newydd wythnosol sylwebaeth fesul diwrnod ar y datblygiadau, ac fe welir fan hyn sut yr oedd newyddion o Iwerddon yn cael eu gwau i mewn i batrwm ehangach y rhyfel. Yn y *Gwyliedydd Newydd* (papur y Wesleaid) ar gyfer 2 Mai fe rydd y gohebydd sylwadaeth ar y newydd a dderbyniodd rhwng dydd Llun, 24 Ebrill a dydd Sadwrn, 29 Ebrill. Ar y dydd Mawrth (25 Ebrill) fe glywodd am ddal Casement yn Iwerddon, ac nid oes amheuaeth am sut yr ymatebodd ef i'r newydd: 'Nis gallwn lai na llawenychu wedi agor y papur heddyw a chanfod fod y bradwr Roger Casement wedi ei ddal. Beth bynnag yw syniadau neb ohonom ar y rhyfel, credwn y byddwn yn unfarn ar y mater yna'. Yna, y diwrnod canlynol: 'Daw newyddion difrifol o'r Iwerddon heddyw. Ddoe bu i nifer o'r Feiners o dan arfau gymryd meddiant o rai o'r lleoedd pwysicaf yn Nublin'. I'r gohebydd, nid oedd ddwywaith pa gynllwynwyr oedd y tu ôl i hyn: 'Ymddengys mai bwriad Casement ydoedd creu gwrthryfel yn yr Iwerddon, ac mai efe ydoedd y prif gyfrwng cydrhwng Germani a'r Iwerddon'.[65]

Yn yr un modd, gellir olrhain teimladau O. M. Edwards fesul diwrnod yn ei golofn 'Cronicl y Misoedd' yng nghylchgrawn *Cymru*. Dyma fath o ddyddiadur cyhoeddus sy'n cofnodi'r newyddion a dderbyniodd a'i ymateb iddo.[66] Fe nododd ar gyfer 25 Ebrill fod yr Almaen 'wedi ceisio glanio milwyr a gynnau yn yr Iwerddon' (y manylyn cyntaf hwnnw wrth gwrs, yn gyfeiliornus). Carcharwyd 'Syr Roger Casement, fu yn llysgenhadwr Prydeinig, ond a aeth i'r Almaen ar ddechreu'r rhyfel' i geisio 'hudo'r carcharorion Gwyddelig i gymeryd arfau yn erbyn Prydain'. Y diwrnod canlynol nododd Edwards dri darn o newyddion, gan gynnwys 'fod gwrthryfel wedi torri allan yn yr Iwerddon', ond wfftiodd hwn fel digwyddiad dibwys: 'nid yw'r gwrthryfel ond fflach'. Ymysg newyddion eraill ar 27 Ebrill fe fychanodd y sefyllfa dros y môr: 'ceir tawelwch yn Iwerddon'.[67]

Wedi iddo ystyried y newyddion ar ddydd Iau, 27 Ebrill, daeth gohebydd y *Gwyliedydd Newydd* hefyd i'r casgliad fod 'gan y Llywodraeth y llaw uchaf ar y teyrn-fradwyr yn yr Iwerddon erbyn hyn', er bod nifer y colledion yn codi. Fodd bynnag, y diwrnod canlynol

[63] Ceir adroddiadau am farwolaeth Moy James yn (1916), 'Maesteg Yeoman killed', *Glamorgan Gazette*, 12 Mai, t. 8; (1916), 'Pontycymmer man's heroism', *Glamorgan Gazette*, 19 Mai, t. 3. Rhoddir sylw i'w hanes yn Llwyd, *Colli'r Hogiau*, tt. 397–400.

[64] Yn ôl yr adroddiadau yn y papurau newydd, fe'i saethwyd gan saethwr cudd ar Grafton Street, yn fuan wedi iddo gludo sifiliad a oedd wedi'i anafu i ddiogelwch. Gweler (1916), 'Neyland News', *Haverfordwest and Milford Haven Telegraph*, 31 Mai, t. 3.

[65] (1916), 'Y Rhyfel o ddydd i ddydd', *Gwyliedydd Newydd*, 2 Mai, t. 8. Noder bod rhai o'r dyddiadau yn cael eu cymysgu ar y dudalen. Golygydd y papur oedd y Parch. David Gwynfryn Jones – gweler <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-GWY-1867>.

[66] Gweler Matthews, 'Un o Flynyddoedd Rhyfeddaf Hanes', t. 168.

[67] Edwards, O. M. (1916), 'Cronicl y misoedd', *Cymru*, 50 (6), Mehefin, 281–2.

nododd, 'Ymleddir a'r bradwyr yn ystrydoedd Dublin' ac ar y Sadwrn, 'Ceisia'r bradwyr feddiannu'r ddinas'.[68]

Yn ogystal â'r sylw a roddir i ddigwyddiadau yn Iwerddon, mae'r ysgrif hon yn y *Gwyliedydd Newydd* yn ystyried datblygiadau ym mhedwar ban byd – yn Asia, Affrica, America, yr Iwerydd a Môr y Gogledd, yn ogystal â Verdun a mannau eraill ar Ffrynt y Gorllewin. Telir llawer o sylw hefyd i ymosodiadau llongau'r Almaenwyr ar Lowestoft, a rhai'r Zeppelins ar Lundain. I O. M. Edwards hefyd, mae'n amlwg bod ei brif sylw ar ddigwyddiadau mewn mannau eraill. Nid oes sylw am ddigwyddiadau yn Nulyn yn ei gofnod ar 28 Ebrill ond mae'n nodi mai milwyr Gwyddelig oedd yn gwrthsefyll ymosodiadau'r Almaenwyr yn ardal Loos. Ar ddydd Sadwrn, 29 Ebrill mae'n nodi i 9,000 o filwyr Prydeinig orfod ildio i'r Tyrciaid yn Kut: i Edwards, hwn oedd 'Newydd pruddaf y rhyfel'.[69]

Mewn ambell bapur cafwyd dadansoddiad cynnar a geisiodd gymryd golwg ychydig yn fwy hirdymor ar y sefyllfa. Fe daflwyd rhai sylwadau hallt i gyfeiriad Edward Carson, yr un, ys dywed *Llais Llafur*, a oedd wedi dechrau ar y llwybr arfog trwy drefnu i smyglo drylliau i arfogi'i gefnogwyr.[70] I'r papur newydd sosialaidd hwn (a oedd yn gefnogol i ymgyrch Prydain yn y rhyfel), y rhai a geisiodd ddyfod â chwyldro i Ulster oedd y drwg yn y caws: teitl bachog yr erthygl hon yw 'Coming home to roost'. Fodd bynnag, fe fethodd yr erthygl, a gyfeiria at 'the Dublin riots', broffwydo'r hyn a fyddai'n digwydd maes o law. Wrth ddatgan, 'Ireland has responded magnificently to the call of the nation in its hour of need', roedd y gohebydd yn hyderus na fyddai gweithgareddau llond dwrn o eithafwyr yn Iwerddon ond yn fodd i dynnu sylw at weithgareddau teilwng y rhelyw o'r genedl.[71]

Yn y papurau newydd Cymreig yn yr wythnos ar ôl y gwrthryfel, y duedd oedd i gyflwyno'r cyfan fel methiant, mewn iaith a bwysleisiai pa mor bitw ac annheilwng oedd gweithgareddau'r 'teyrnfradwyr'. Wedi iddi ymddangos bod y gwrthryfel wedi methu, yn rhifyn yr wythnos ganlynol o'r *Gwyliedydd Newydd* ceir y newyddion (dydd Mawrth, 2 Mai) bod 'gwrthryfelwyr yr Iwerddon' wedi rhoi 'eu harfau i lawr yn ddiamodol'. Ychydig iawn o sylwadau eraill sydd am y sefyllfa yn Iwerddon: i'r papur hwn, yr oedd yn bwysicach manylu ar ymestyn yr orfodaeth filwrol i bob dyn, priod a dibriod, rhwng 18 a 41 oed.[72]

Fe ymddangosodd dadansoddiad o newyddion yr wythnos gan Beriah Gwynfe Evans sy'n hyrwyddo'r naratif o'r gwrthryfel fel cynllwyn yr Almaenwyr. Mae'n ddadansoddiad hir (o gwmpas tair mil o eiriau) a gyhoeddwyd mewn o leiaf pedwar papur newydd rhwng 2 a 5 Mai.[73] Nid y newyddion o Iwerddon yw'r prif bennawd, eithr ymosodiadau'r Llynges

---

[68] 'Y Rhyfel o Ddydd i Ddydd', 2 Mai.
[69] Edwards, 'Cronicl y misoedd', t. 282.
[70] Gweler De Barra, *The Coming of the Celts*, t. 259.
[71] (1916), 'Coming home to roost', *Llais Llafur*, 29 Ebrill, t. 2.
[72] (1916), 'Y Rhyfel o Ddydd i Ddydd', *Gwyliedydd Newydd*, 9 Mai, t. 4.
[73] (1916), 'Cwrs y Rhyfel', *Y Genedl Gymreig*, 2 Mai, t. 5; 'Y Rhyfel o Ddydd i Ddydd', *Y Llan*, 5 Mai, t. 1; 'Y Rhyfel', *Seren Cymru*, 5 Mai, tt. 6–7; 'Cwrs y Rhyfel', *Y Darian*, 4 Mai, t. 1. Nid yw'r erthyglau yn union yr un fath, oherwydd mae adrannau wedi'u hychwanegu at y fersiwn sydd yn *Seren Cymru*. *Y Darian* sy'n nodi mai'r awdur yw 'Beriah'.

Almaenig ar Lowestoft a Yarmouth, a chyrch y Zepelins ar ddwyrain Lloegr. Pan mae'n troi ei sylw at Iwerddon, dechreua Evans â'r cysylltiadau â'r Almaen, gydag adroddiad ar y llong Almaenig yn ceisio glanio arfau ar arfordir Iwerddon. Yna fe atgoffa'r darllenwyr am weithgareddau Syr Roger Casement wrth geisio hudo milwyr Gwyddelig i 'droi ... yn fradwyr yn erbyn Prydain'. Wedyn mae Evans yn cyplysu'r manylion hyn â'r digwyddiadau yn y brifddinas: 'Yr oedd cysylltiad amlwg rhwng yr helynt yn Dublin a'r ymgais i lanio gan y Germaniaid yn y Werddon'.

Gyda'r fantais o allu edrych yn ôl, fe welwn fod nifer o wallau yn nadansoddiad Evans. Datganodd mai cipio'r llwyth o arfau oedd wedi drysu cynlluniau'r gwrthryfelwyr, ond y gwir amdani yw nad oedd yr ymgyrch yn Nulyn yn dibynnu ar unrhyw arfau ychwanegol. O ran adnabod y rhai a oedd wrth wraidd y gwrthryfel mae Evans yn enwi 'Sinn Ffein' a'r 'Larkiniaid'. Er i'r papurau Prydeinig yn unfryd bwyntio'r bys at Sinn Féin (ac er i'r blaid honno yn ddiweddarach geisio atgyfnerthu'r canfyddiad hwn), nid oedd arweinydd y blaid na'i swyddogion yn rhan o'r ymgyrch o gwbl. Fodd bynnag, fel yr eglura Kieran Allen, 'The "Sinn Féin" label stuck because there was no other open political organisation to which responsibility for the rebellion could be attributed'.[74]

Felly, aeth nifer o sylwebwyr ati i geisio egluro syniadaeth Sinn Féin. Er iddo dynnu sylw at wreiddiau Sinn Féin fel mudiad diwylliannol, gan eu galw'n 'Cymrodorion y Werddon', roedd beirniadaeth Beriah Gwynfe Evans ohonynt yn hallt: 'Pobl anghymodlawn ydynt. Wna dim y tro iddynt na chanddynt ond adsefydlu Anibyniaeth [*sic*] hollol i'r Werddon'.[75]

Fe â Evans ymlaen i grynhoi dylanwad yr arweinydd llafur radicalaidd Jim Larkin, 'yr arweinydd llafur a achosodd gymaint helynt ym myd Llafur ychydig cyn dechreu y rhyfel'. Cyfeiria hyn at y 'Dublin Lock-out', anghydfod diwydiannol dwys a barhaodd yn y ddinas o ddiwedd Awst 1913 tan ddechrau 1914.[76] Nid oedd Larkin ei hunan yn rhan o'r digwyddiadau yn Nulyn yn 1916 o gwbl oherwydd ei fod yn Unol Daleithiau America ar y pryd, ond ceir sylwadau dirmygus amdano yn y papurau Cymreig. Wrth adrodd am ei anerchiad i gyfarfod yn Chicago, cyfeiria'r *Udgorn* at Larkin 'yn bwrw ei lysnafedd yn erbyn Lloegr'.[77]

Er ei fod yn bapur sosialaidd, nid oedd gan *Llais Llafur* air da i'w ddweud am Larkin ychwaith. Fodd bynnag, mewn ysgrif olygyddol ar 6 Mai, mae'r awdur yn ceisio edrych y tu hwnt i'r 'grief and horror' a deimlai'r darllenydd wrth ddarllen am y gwrthryfel, gan ystyried yr achosion hirdymor. Er ei bod yn llym iawn ei beirniadaeth o'r 'unwholesome neuropaths' a arweiniodd y gwrthryfel, fe bwyntia'r erthygl ei bys at gyfalafiaeth a chamweinyddu fel yr achosion a oedd wrth wraidd yr anghydfod:

[74] Allen, *1916*, t. 82. Gweler hefyd sylw Boyce, 'British Opinion, Ireland, and the War', t. 578, bod trefnwyr y gwrthryfel yn 'mistakenly labelled' fel 'Sinn Feiners'.

[75] 'Y Rhyfel', *Seren Cymru*, 5 Mai, t. 7.

[76] Irish, *Trinity in War and Revolution*, tt. 63–5.

[77] (1916), 'Jim Larkin', *Yr Udgorn*, 24 Mai, t. 3.

> But who is responsible for the Dublin slumdwellers, of whose poverty and misery [the bloodshed and deaths] are in part the expression? British misgovernment and Irish capitalism. ... The Sinn Feiners killed bodies; but our governing classes have murdered souls.[78]

Galwodd yr ysgrif am unioni'r camau a wnaethpwyd ag Iwerddon unwaith y dôi'r rhyfel i ben. Yn ogystal ceir beirniadaeth yma eto o safiad Carson a'r Ulster Volunteers, a ddechreuodd y llithriad tuag at wrthdaro arfog ar yr ynys.

Felly, wedi i'r gwrthryfel yn Nulyn ddod i ben, a'r goroeswyr wedi eu dal gan yr awdurdodau, dechreuodd y broses o geisio gwneud synnwyr o'r cyfan, ac egluro'r 'cythrwfl'.[79] Yn naturiol, fe bwysleisiodd papurau gwahanol agweddau amrywiol, ond gwelir rhai safbwyntiau mor aml fel ei bod yn deg eu derbyn fel barn gynrychiadol o safbwyntiau'r mwyafrif. Fe barhaodd y pwyslais ar y cyfan mai cynllwyn Almaenig oedd hwn. Gwelwyd rhai o'r adroddiadau mwyaf digyfaddawd ar y pwnc hwn yn y wasg Geidwadol. Er mai 'The Sinn Fein Rebellion' yw teitl yr ysgrif olygyddol yn y *North Wales Chronicle* chwe diwrnod wedi'r ildiad, mae sylwadau'r erthygl yn ffyrnig yn erbyn lluoedd y Kaiser:

> It is quite well understood where the real driving force at the back of this crazy rebellion is to be sought. The British people have never been for a moment deceived as to the part which Germany has played in this Irish uprising, as in so many other subterranean intrigues in every comer of the earth.[80]

Dyma hefyd fyrdwn ysgrif olygyddol *Y Cymro*: 'Wrth roi'r holl amgylchiadau ynghyd, gwelir nad yw'r cynnwrf presennol yn y Werddon yn ddim llai na phennod arall yng nghyfrol ddu cynllwynion Germani i geisio mynd dan wraidd nerth ac uwchafiaeth Prydain'.[81] Hyd yn oed yn yr wythnosau wedi tranc y gwrthryfel, cyhoeddodd rhai papurau newydd Cymreig eu barn mai'r Almaen oedd y tu ôl i'r cyfan. Awgrymodd *Y Dinesydd Cymreig* dair wythnos wedi'r digwyddiad fod 'Berlin mewn gohebiaeth ddi-wifr gyda Dulyn yn ystod y gwrthryfel, ac hysbyswyd hwy o bob symudiad'.[82]

Fe geisiodd rhai sylwebwyr gymryd safbwynt mwy cytbwys am y gwrthryfel. Er i *Baner ac Amserau Cymru* nodi'r ymyrraeth gan yr Almaenwyr, gan gynnwys cefnogi 'y bradwr, Syr Roger Casement', mae'r rhan fwyaf o'r llith yn ceisio deall cymhellion Sinn Féin, a sut y trodd mudiad a oedd ar y cychwyn â chymeriad 'deallol, addysgawl' yn dreisgar. Ymysg yr atebion a gynigir i'r pos ceir cyflwyno arfau i mewn i gyfundrefn Iwerddon (gyda'r Almaen *a* gweithredoedd Edward Carson yn cael y bai); gwendid yr awdurdodau ar yr ynys yn

[78] (1916), 'Dublin and the Moral', *Llais Llafur*, 6 Mai, t. 2.
[79] (1916), 'Cythrwfl yn yr Iwerddon', *Yr Herald Cymraeg*, 2 Mai, t. 8.
[80] (1916), 'The Sinn Fein Rebellion', *North Wales Chronicle*, 5 Mai, t. 2.
[81] (1916), 'Nodiadau wythnosol', *Y Cymro*, 3 Mai, t. 3.
[82] (1916), 'Gwrthryfel Dulyn', *Y Dinesydd Cymreig*, 17 Mai, t. 6.

anwybyddu rhybuddion a chaniatáu i elfennau o'r wasg gynhyrfu'r sefyllfa; a dylanwad Jim Larkin yn ceisio 'gwenwyno meddwl y llafurwyr amaethyddol nes eu gwneud yn elynion i drefn, ac arferion cyfansoddiadol'.[83]

Yn y dyddiau wedi i'r gwrthryfelwyr ildio, roedd gweithredoedd yr awdurdodau Prydeinig yn erbyn yr arweinwyr yn ddigyfaddawd. Cafodd dienyddiadau'r prif gynllwynwyr eu croesawu'n ddigwestiwn gan y rhelyw o'r wasg Gymraeg. 'Gwnaed cyfiawnder prysur a gwrthryfelwyr Dulyn,' datganodd *Y Dinesydd Cymreig* wrth adrodd yn gwta ar ddienyddiad Pearse, Clarke a MacDonagh.[84] Dial yn erbyn y gwrthryfelwyr am eu gweithredoedd bradwrol er budd yr Almaen oedd byrdwn gohebydd i'r *Llan*: 'Rhebels ydynt ac fel rhebels wedi codi arfau yn erbyn y Brenin y dylid eu trin, a'u saethu'.[85] Sylw moel a geir yn y *Gwyliedydd Newydd* am ddigwyddiadau 6 Mai, bod 'pedwar bradwr arall' wedi cael eu saethu.[86] Hefyd mae 'Cronicl y Misoedd' O. M. Edwards yn ddifraw: 'Ddoe saethwyd pedwar o arweinwyr y Gwyddelod' ar 4 Mai, ac ar 9 Mai, 'Saethu pedwar o'r arweinwyr Gwyddelig – y dienyddiadau olaf yn ôl pob tebyg'.[87] Sylwer nad oes gronyn o gydymdeimlad â'r rhai a ddienyddiwyd yn yr adroddiadau moel hyn.

Fodd bynnag, fe welodd *Y Darian* y perygl o aflonyddu ar sefyllfa fregus. Mae'n debyg mai'r golygydd, y Parch. Tywi Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, oedd yn gyfrifol am ysgrif olygyddol yn rhifyn 4 Mai a ddengys agwedd gymedrol iawn tuag at y gwrthryfelwyr, a hyd yn oed cydymdeimlad.[88] Datganodd, 'Mae'n flin gennym am yr annoethineb hwn o eiddo'r Gwyddelod, yn arbennig gan mai gwladgarwyr a wnaethant lawer dros eu gwlad a'u cenedl sydd wrth ei wraidd, sef Cymdeithas y Sinn Ffein'. Wrth nodi mai eu prif gymhelliad gynt fu amddiffyn diwylliant Gwyddelig rhag cael ei Seisnigeiddio, gofynna, 'Pwy na fedrai gydymdeimlo ag amcanion y bobl hyn?' Fodd bynnag, aeth y dynion hyn ar gyfeiliorn: 'Mae gan wladgarwyr er hynny i ddysgu nad oes dim i'w ennill trwy nerth pylor a dur'.[89]

Felly, er ei fod yn feirniadol o'r gwrthryfel, mynnodd y dylai'r awdurdodau gymryd sylw o'r cwynion dilys: 'credwn y dylasai yr helynt beri i Ymerodraethwyr bostfawr aros a meddwl'.[90]

Yn y rhifyn nesaf dyfynnwyd geiriau John Redmond wrth y Prif Weinidog, yn rhybuddio bod 'y saethu gwrthryfelwyr parhaus sydd yn yr Iwerddon yn cyflym feithrin chwerwder ac anesmwythder ymhlith adrannau o'r boblogaeth nad oedd ganddynt y cydymdeimlad lleiaf a'r gwrthryfel'.[91]

---

83 (1916), 'Nodion', *Baner ac Amserau Cymru*, 6 Mai, t. 4.
84 (1916), 'Dydd Iau' [4 Mai], *Y Dinesydd Cymreig*, 10 Mai, t. 6.
85 (1916), 'Y Werddon', *Y Llan*, 12 Mai, t. 3.
86 'Y Rhyfel o Ddydd i Ddydd', 9 Mai.
87 Edwards, 'Cronicl y Misoedd', t. 282.
88 <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-JONE-TYW-1870>.
89 Jones, J. Tywi (1916), 'Y Pair', *Y Darian*, 4 Mai, tt. 4–5.
90 Ibid.
91 (1916), *Y Darian*, 11 Mai, t. 8.

Ceir ysgrifau diddorol ar destun Iwerddon gan un o weinidogion eraill y Bedyddwyr, y Parch. J. Gwili Jenkins, golygydd papur newydd yr enwad, *Seren Cymru*.[92] Teitl yr ysgrif olygyddol ar 5 Mai yw 'Sinn Fein', er ei fod yn ystyried nifer o ffactorau gwleidyddol a arweiniodd at 'helbul yr wythnos ddiweddaf yn Nulyn', gan gynnwys 'gweithredu ... anghyfreithlon' Edward Carson a 'llacrwydd y Weinyddiaeth'.[93] Myn Gwili na ddylid defnyddio'r gwrthryfel fel esgus i dynnu'n ôl ar yr addewid o ymreolaeth i Iwerddon: 'y mae aberth diwarafun ei meibion yn Ffrainc a gwledydd eraill yn wystl ffyddlondeb Redmond a'i blaid i'r Ymerhodraeth [*sic*]'.

Â ymlaen i gynnig cymhariaeth uniongyrchol â sefyllfa Cymru:

> Rhyfel yw'r Rhyfel hwn, fe'n sicrheir, dros fuddiannau'r cenhedloedd bychain. Yr ydym yn bennaf, meddir, yn ymladd dros hawl Belgium, Serfia, Montenegro a Pholand i fyw eu bywyd eu hunain, heb fod achos iddynt ofni'r dwrn haearn mwy. Os felly, gweddus fydd i Senedd Prydain ganiatáu, fel cêd gyfreithlon, hawl yr Iwerddon i'w chais am fyw ei bywyd arbennig ei hun, ac i Gymru a'r Ysgotland yr unrhyw hawlfraint. ... Teimlwn, ers tro, ei bod yn hen bryd i Gymru feddu'r hawl i weithio allan ei iachawdwriaeth gymdeithasol a gwleidyddol ei hun, heb ei llesteirio gan waethaf gwareiddiad Lloegr a'r Cyfandir.[94]

Felly yr oedd nifer o sylwebwyr yn cynnig dadansoddiadau digon meddylgar o'r sefyllfa ym mis Mai 1916, er gwaetha'r ffaith bod y gwrthryfel wedi dod fel sioc a'i fod yn herio eu syniadau am genhedloedd y Cynghreiriaid yn cyd-dynnu mewn achos teilwng. Fodd bynnag, fe barhaodd y drafodaeth i fod yn gyfyngedig – o ran y gofod a hawliodd yn nhudalennau'r cylchgronau ac o ran yr hyn a ddychmygodd y sylwebwyr fyddai canlyniadau tymor hir y digwyddiadau.

Wrth i'r wythnosau basio fe lithrodd y digwyddiadau yn Nulyn o'r penawdau newyddion yn y wasg Gymreig. Fe barhaodd tipyn o ddiddordeb yn achos llys Roger Casement – yn un peth oherwydd i ddau fargyfreithiwr o Gymry, Artemus Jones a J. H. Morgan, fod yn rhan o dîm yr amddiffyniad.[95] Mae nifer o'r adroddiadau am yr achos yn canolbwyntio ar wirionedd sydd yn aml wedi mynd ar goll mewn astudiaethau dros y degawdau canlynol, sef mai'r prif gyhuddiadau yn erbyn Casement oedd ei fod wedi gweithredu'n fradwrol wrth geisio darbwyllo milwyr Gwyddelig i wasanaethu gyda lluoedd yr Almaen.[96] Ar y mater hwn, nid oedd, ac nid oes, amheuaeth am euogrwydd Casement: yn y llys fe

---

92 <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JENK-GWI-1872>.

93 Jenkins, J. Gwili (1916), 'Sinn Fein', *Seren Cymru*, 5 Mai, t. 8.

94 Ibid.

95 Gweler er enghraifft (1916), 'Syr Roger Casement: Cymro i'w amddiffyn', *Yr Herald Cymraeg*, 16 Mai, t. 5, a 'Prawf Syr Roger Casement', *Y Clorianydd*, 24 Mai, t. 2.

96 Roedd pump o'r chwe chyhuddiad yn erbyn Casement yn ymwneud â'i weithgareddau gyda'r carcharorion rhyfel Gwyddelig yn yr Almaen, a dim ond un yn cyfeirio at yr ymgais i lanio arfau yn Iwerddon. Gweler Callanan, Frank (2005), 'Between Treason and Blood-Sacrifice: The Trials of Roger Casement', yn Daley, Mary E. (gol), *Roger Casement in Irish and World History* (Dublin: Royal Irish Academy), tt. 121–37 (124).

dystiodd rhai o'r milwyr Gwyddelig a oedd yn llygad-dystion i'w ymdrechion. Felly pan gafodd ef ei ddedfrydu i farwolaeth am ei weithredoedd, nid oedd llawer o syndod i'w weld yn y penawdau newyddion. 'Syr Roger Casement: y bradwr i'w roi ynghrog' a 'Traitor sentenced to death' yw dau o'r penawdau cynrychiadol.[97] Fodd bynnag, erbyn hyn roedd datblygiadau ar faes y gad yn hawlio llawer mwy o sylw na thynged un troseddwr. Mae'r adroddiad yn *Y Cymro* yn rhifyn 5 Gorffennaf, ac yn dod ar ôl newyddion am ddechrau brwydr y Somme, yn ogystal â'r newyddion am y gyflafan barhaus yn Verdun. Datgana, 'rhaid dweyd fod digwyddiadau mawr yr wythnosau diweddaf wedi tynnu cryn lawer oddiwrth y dyddordeb [yn yr achos]'.[98] Er i ambell i bapur newydd leisio barn bod cyfle i ddangos mawrfrydigrwydd, a sôn am y perygl y byddai Casement yn dod yn ferthyr i achos y cenedlaetholwyr Gwyddelig, nid yw'n ymddangos bod symudiad sylweddol i ddangos trugaredd.[99] Cyhoeddodd O. M. Edwards ei farn yn 'Cronicl y Misoedd' (ar gyfer 3 Awst):

> Crogwyd Syr Roger Casement, y bradwr, yng ngharchar Pentonville bore heddyw. Cred llawer mai gwell fuasai ei arbed, ond y mae bradwriaeth yn bechod anfaddeuol pan fydd bywyd cenedl mewn perygl.[100]

Er nad oedd y sefyllfa yn Iwerddon ar flaen y newyddion am weddill y flwyddyn (nac, yn wir, am weddill y rhyfel), yn achlysurol dros y misoedd nesaf fe drodd rhai o sylwebwyr y wasg Gymreig eu golygon dros y môr i'r gorllewin, a chynnig eu barn am arwyddocâd a gwersi'r gwrthryfel. Yn aml, mae eu datganiadau yn datgelu mwy am eu rhagfarnau a'u blaenoriaethau eu hunain nag y maent am y sefyllfa fregus yn Iwerddon. I'r papurau ceidwadol eu safbwynt, roedd yn hawdd camu'n ôl i ystrydebau am ddeuoliaeth y Gwyddel, a sut yr oedd yn bosibl i'r Gwyddelod 'teyrngar' gael eu camarwain wrth i ambell rai gwyllt gorddi'r dyfroedd. Yn *Y Llan* ym mis Hydref fe wahaniaethodd y sylwebydd 'Morfa' rhwng trwch y Gwyddelod teyrngar a'r 'nythed o fradwyr' a oedd yn derbyn 'aur Gwyddelod yr America a'r Germaniaid'. Datganodd fod 'yr oll o'r Ymherodraeth yn addef gwroldeb ein milwyr Gwyddelig' ac mai'r 'unig beth i sicrhau diogelwch' oedd cyflwyno gorfodaeth filwrol ar yr ynys.[101] Fodd bynnag, dangosodd gohebydd y *North Wales Chronicle* agwedd sarhaus tuag at y Gwyddelod yr oedd yn well ganddynt ddadlau ymysg ei gilydd nag ymladd yn erbyn y gelyn Almaenig. Er iddo nodi mai'r Gwyddelod oedd 'the best fighting material to be found in all the world', gresynodd fod 161,000 ohonynt yn fodlon 'to sulk in their tents

97 (1916), 'Syr Roger Casement: y bradwr i'w roi ynghrog', *Y Clorianydd*, 5 Gorffennaf, t. 2; 'Traitor sentenced to death', *North Wales Chronicle*, 30 Mehefin, t. 5.

98 (1916), 'Collfarn Casement', *Y Cymro*, 5 Gorffennaf, t. 3.

99 Gweler (1916), 'Sinn Féin', *Welsh Outlook*, 3(5) (Mai), tt. 140–1 am y ddadl y byddai Casement yn dod yn ferthyr; am y ddadl dros ddangos mawrfrydigrwydd gweler 'Roger Casement', *Y Dydd*, 4 Awst, t. 5 – er, sylwer bod hwn yn rhy hwyr i achub Casement.

100 Edwards, O. M. (1916), 'Cronicl y Misoedd' [ar gyfer 3 Awst], *Cymru*, 51 (3), Medi, t. 146.

101 "Morfa" (1916), 'Wfft i'r Gwyddel!', *Y Llan*, 27 Hydref, t. 3.

while the whole Empire is fighting for its life'. Nododd mai gwŷr Ulster oedd yn cymryd y baich o ymladd dros Ei Fawrhydi.[102]

Fel y disgwylid roedd safbwynt gwahanol yn y *Merthyr Pioneer*, y papur Cymreig a oedd uchaf ei lais yn erbyn y rhyfel ac o blaid hawliau'r dosbarth gweithiol. Wrth ystyried digwyddiadau'r Pasg, fel y papurau eraill, roedd y *Pioneer* yn collfarnu'r gwrthryfelwyr – gan gyfeirio ym mis Gorffennaf at 'the foolish and futile, aye, and traitorous action of Casement in inciting his deluded and desperate countrymen to take up arms in civil war against England'. Fodd bynnag, yn yr erthygl hon, neilltuir y prif gerydd i'r 'noble lords and blue-blooded Tories', yr 'unscrupulous politicians' a'r 'scheming traitors' a oedd yn ceisio twyllo'r Gwyddelod i gefnogi'r rhyfel ehangach.[103] Yn hwyrach yn y flwyddyn, ceir adroddiad am araith David S. Blatchford ym Margod, a bwysleisiodd rôl landlordiaeth yn Iwerddon, a'r achosion o godi rhenti a throi tenantiaid allan. Eglurodd y gwrthryfela yn nhermau'r meddylfryd a feithrinwyd gan y gorthrwm hwn.[104]

Fodd bynnag, teg dweud nad y Ceidwadwyr na'r Sosialwyr penboeth oedd y lleisiau mwyaf cynrychiadol yn y cyfnod, ond yn hytrach y rheiny oedd o duedd Ryddfrydol-Anghydffurfiol. Canolbwyntir yma ar farn tri o'r sylwebwyr a oedd yn ddylanwadol yng nghylchoedd cyhoeddus y Cymry Cymraeg. Un agwedd ddiddorol a welir yw sut y mae'r gohebwyr yn dal ar y cyfle i ystyried y goblygiadau i Gymru o ganlyniad i'r digwyddiadau yn Iwerddon.

Wrth lunio ei ysgrif olygyddol yn ei gylchgrawn ar gyfer Mehefin, roedd O. M. Edwards yn cael ei ddenu i ystyried y tebygrwydd rhwng yr ymgyrch genedlaethol yn Iwerddon a'r sefyllfa yn ei wlad ei hun:

> Y mae gwrthryfel y Ffeniaid yn yr Iwerddon fel breuddwyd cynhyrfus nos, a phery lawer o chwilio calonnau ymysg y Cymry. ... gallaf edrych ar Gymru megis yng ngoleu coelcerth alaethus Dulyn.[105]

Er iddo barhau â'i farn bod y gwrthryfel yn 'ynfyd a phechadurus',[106] a'r ysgarmes yn 'waedlyd ac anobeithiol',[107] roedd o hyd megis yn gweld adlewyrchiad o'r Cymry wrth syllu ar ddrych Dulyn:

> Ymysg y dyrfa orchfygedig oedd yn gorymdeithio i'w carchar rhwng y milwyr gellid gweled llawer un tebyg iawn i Gymro, – y derwydd digofus, yr efrydydd gwelw, y bugail gwladgarol. Ond fel llofruddion yr arweinid hwy; a rhaid cyfaddef eu bod wedi gwneud mwy o ddrwg i'w gwlad mewn ychydig ddyddiau nag a wnaeth ei gelynion mewn llawer o ganrifoedd.[108]

---

[102] (1916), '"Independent" Ireland', *North Wales Chronicle*, 17 Tachwedd, t. 4.
[103] (1916), 'The Betrayal of Ireland', *Merthyr Pioneer*, 29 Gorffennaf, t .2.
[104] (1916), 'Bargoed', *Merthyr Pioneer*, 21 Hydref, t. 5.
[105] Edwards, O. M. (1916), 'Nerth Addfwynder', *Cymru*, 50 (6), Mehefin, 249–51 (249).
[106] Edwards, O. M. (1916), 'Cronicl y Misoedd', *Cymru*, 50 (6), Mehefin, 281–2 (282).
[107] Edwards, 'Nerth Addfwynder', t. 250.
[108] Ibid.

Fodd bynnag, oherwydd ei deyrngarwch i'r Ymerodraeth, neu'r ddelw o'r ymerodraeth fuddiol a fodolai yn ei ben, ni allai Edwards weld bod mantais i geisio rhyddhau'r un o'r ddwy wlad o'i rhwymau cymwynasgar:

> Tylwyth o genhedloedd rhyddion yw'r ymherodraeth Brydeinig, pob un wedi tyfu'n naturiol i fesur ei hannibyniaeth. Pa un fuasai'r amcan uchaf i'r Iwerddon neu i Gymru, – ymryddhau o'r ymherodraeth a byw mewn rhyddid arfog, ynte dysgu'r ymherodraeth enfawr i fagu cenhedloedd mewn undeb cariadus?[109]

Fe ddaeth y cyd-destun ymerodrol i feddwl D. Miall Edwards hefyd wrth iddo ysgrifennu llith olygyddol a oedd yn ceisio gwneud synnwyr o 'Helynt Iwerddon' i gylchgrawn misol yr Annibynwyr.[110] Sylwer ei fod yn atgynhyrchu rhai syniadau cyfeiliornus, wrth gyfeirio at gymorth Almaenig i'r gwrthryfelwyr, ond gwêl hefyd y posibilrwydd y bydd y digwyddiadau yn esgor ar well ddealltwriaeth o ofynion y Gwyddelod:

> Cythryblus a thrychinebus iawn fu cwrs pethau yn Iwerddon yn ystod y mis diweddaf. A nyni'n ymffrostio yn undeb yr ymerodraeth, wele ymgais bron yn ein hymyl i godi baner gwrthryfel yn erbyn Prydain Fawr, gyda chymorth yr Almaen. Hawdd condemnio'r penboethiaid ynfyd a bradwrus a fu'n ceisio troi'r Ynys Werdd yn Ynys Waed – condemniwyd hwynt eisoes yn ddiarbed gan arweinwyr y ddwy blaid swyddogol yn Iwerddon, sef Redmond a Carson. Ond nid mor hawdd meddu digon o wybodaeth a dychymyg i allu deall eu hamcanion a'u delfrydau. Gwna gwrthryfel y Sinn Fein les os gorfoda'r Sais – a'r Cymro hefyd o ran hynny – i geisio deall bywyd mewnol Iwerddon yn well. Rhyfedd mor anwybodus ydym o'r genedl fechan hon sy'n byw drws nesaf inni.[111]

Felly roedd Miall Edwards, hefyd, yn pwyntio'r bys at Sinn Féin wrth geisio egluro'r hyn a ddigwyddodd.[112] Awgrymodd fod 'llawer o bethau yn y mudiad a apelia at genedlaetholwyr Cymreig' ond fe nododd hefyd fod 'eu syniadau yn wyllt ac anymarferol' – sylw sy'n cyd-fynd â'r stereoteip nawddoglyd o'r Gwyddelod fel pobl anystywallt. Fodd bynnag, wrth geisio gwneud synnwyr o'r sefyllfa, fe daflwyd y bai unwaith yn rhagor i gyfeiriad y Kaiser ac Edward Carson:

> Naturiol oedd i'r Almaen geisio manteisio ar nwydau'r penboethiaid breuddwydiol hyn i'w hamcanion ei hyn [*sic*]. Ychwaneger at hyn y

[109] Ibid.
[110] <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-EDWA-MIA-1873>.
[111] Edwards, D. Miall (1916), 'Helynt Iwerddon', *Y Dysgedydd*, 98, Mehefin, t. 277.
[112] Mae sylwadau'r Parch. E. Ungoed Thomas yn rhifyn Gorffennaf 1916 o *Seren Gomer* yn ei ysgrif 'Trem ar Fyd ac Eglwys' (tt. 223–4) hefyd yn cyfeirio at 'wrthryfel y Sinn Fein'.

> gefnogaeth a gawsant yn union cyn y rhyfel oddi wrth esiampl yr arch-wrthryfelwr gwrth-genedlaethol Syr Edward Carson, a gellir deall cyflwr eu meddwl. Os caniatawyd i Carson ystorio arfau milwrol a pharatoi gwrthryfel i'w amcan ei hun, onid cyfreithlon i'r Sinn Feiniaid wneuthur yr un peth i'w hamcan hwythau?[113]

Fis yn ddiweddarach cafwyd ysgrif olygyddol gan Gwili Jenkins am y sefyllfa yn Iwerddon yn *Seren Cymru*. Mae hon yn hynod o optimistaidd, gan ragweld y daw cytgord i sefyllfa Iwerddon trwy gynnal trafodaethau ar sail cynllun y Prif Weinidog, Herbert Asquith, gyda phob carfan yn dod yn gytûn. Egyr hyn gyfleoedd ar gyfer datblygiad cyfansoddiadol ar draws yr Ymerodraeth, gan gynnwys Cymru:

> Hyderwn yn fawr y gwelir y fath lwyddiant yn dilyn y cyfaddawd fel y teimla Ulster ar fyr mai gwiw iddi hithau fydd bwrw ei choelbren gyda'r taleithiau eraill, ac yr iacheir clwyfau oesol yr Ynys Werdd, pan gydfydd ei holl bobl a'i gilydd. Diau fod ym mryd Mr. Asquith greu cyfnewidiadau dirfawr yn null llywodraethiad yr Ymherodraeth, pan ddelo'r Gad Gamlau [*sic*: Gamlan] arswydus yma i ben yn Ewrop. Sibrydir y ceir Senedd i'r Ymherodraeth, ac y rhoddir i'r India fwy mesur o Ymreolaeth. Nid annhebyg ychwaith y ceir mesurau Ymreolaeth i'r Alban ac i Gymru. A fydd Cymru yn barod i'r mesur hwnnw?[114]

Felly yr oedd o hyd yn bosibl, ar ôl yr holl dywallt gwaed dros y Pasg, i sylwebydd uchel ei barch ragweld diweddglo cadarnhaol i'r sefyllfa, a phawb yn cael chwarae teg gan yr awdurdodau yn Llundain.

Yr hyn sy'n absennol o drafodaethau'r Cymry dylanwadol hyn yng nghyhoeddiadau 1916, boed yn Geidwadol, Sosialaidd neu Ryddfrydol, yw unrhyw awgrym eu bod yn gweld dechreuad chwyldro a fyddai'n llwyddo i sefydlu gwlad annibynnol. Nid arwydd o'r newidiadau pellgyrhaeddol a oedd ar droed a welwyd, eithr poendod byrhoedlog a fyddai'n cael ei leddfu maes o law wrth i'r *status quo* ailsefydlu'i hunan, efallai gyda rhai addasiadau. Wrth gwrs, nid oedd y sylwebwyr Cymreig ar eu pen eu hunain, oherwydd ychydig iawn o bobl, hyd yn oed yn Iwerddon, oedd â gweledigaeth o'r hyn y gellid ei wireddu o fewn ychydig flynyddoedd.[115]

Yn ysgrifau'r Cymry yn 1916 amlygir dwy agwedd sy'n ein cynorthwyo i egluro'r diffyg yn eu gorwelion. Yn gyntaf, llerciai cysgod y rhyfel yn erbyn yr Almaen megis hunllef a dreiddiodd i mewn i holl feddyliau'r awduron. Ni allasent roi cyfrif am unrhyw anffawd i gynlluniau Prydain heb weld bysedd maleisus y Kaiser a'i gynffonwyr. Ni allasent ystyried

[113] Edwards, 'Helynt Iwerddon', t. 277.
[114] Jenkins, J. Gwili (1916), 'Heddychu'r Iwerddon', *Seren Cymru*, 14 Gorffennaf, t. 4.
[115] McGarry, '1916 and Irish Republicanism', tt. 48–51.

unrhyw weithredoedd gwleidyddol na milwrol heb feddwl am sut yr oedd hyn yn effeithio ar y cydbwysedd yn yr ornest fawr, y Cynghreiriaid yn erbyn y gelyn. Yn y cyd-destun hwn, drygioni maleisus, poenus, ond pitw, oedd y Gwrthryfel yn Nulyn i'r sylwebwyr Cymreig.

Sefyllfa ddwys ond cymharol newydd oedd y rhyfel yn 1916: roedd y sylwebwyr yn gwybod mai rhywbeth dros dro oedd yr argyfwng. Fodd bynnag, roedd yr ail agwedd, sef y gred ddi-sigl yn naioni a mawredd yr Ymerodraeth Brydeinig, yn un â gwreiddiau llawer dyfnach i'w hystyried. Ers degawdau, roedd arweinwyr gwleidyddol a diwylliannol Cymru (heb ddim ond llond dwrn o eithriadau) wedi atgynhyrchu'r disgwrs 'Prydeinig' am nerth a gogoniant yr Ymerodraeth. Nid amser rhyfel oedd yr adeg i herio'r syniadaeth hon. Yn hytrach, fe atseiniodd y cylchoedd cyhoeddus yng Nghymru y negeseuon am oruchafiaeth y drefn Brydeinig, gyda'r sylwebwyr (eto, heb ddim ond dyrnaid o eithriadau) yn uchel iawn eu hanogaeth ar i'r Cymry gyfranogi yn yr ymgyrch gyfiawn yn erbyn gelynion Prydain. Felly, wrth weithredu yn erbyn rheolaeth Prydain, roedd y gwrthryfelwyr yn Nulyn nid yn unig yn ochri gyda'r gelyn, ond hefyd yn ymddwyn yn groes i fuddiannau Iwerddon, gan mai'r sefyllfa briodol i'r Gwyddel oedd bod yn aelod o deulu dedwydd yr Ymerodraeth.

Bellach, mae trwch ynys Iwerddon wedi bod yn annibynnol ers dros ganrif, ac mae'r Ymerodraeth Brydeinig wedi diflannu ers degawdau (ac eithrio ym meddyliau ambell ddallbleidiwr), felly mae datganiadau'r sylwebwyr yn 1916 yn ymddangos yn chwithig heddiw. Serch hyn, maent yn dangos sut yr oedd golwg y Cymry blaengar hyn ar y byd wedi'i chyfyngu gan y disgwrs Llundain-ganolog oedd yn tra-arglwyddiaethu yn y cyfnod. Ni allent ddirnad pam y byddai unrhyw un yn ei iawn bwyll am adael yr 'undeb cariadus'.[116] Wrth edrych ar gyflwr ein gwlad heddiw, byddai rhai yn dweud mor niweidiol y bu i ffyniant Cymru nad oedd gan ei harweinwyr y dychymyg i symud y tu hwnt i'r meddylfryd hwn.

[116] Gweler y dyfyniad uchod gan O. M. Edwards o'i erthygl 'Nerth Addfwynder', t. 250.